**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Gorffennaf 27ain 2015 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley (cadeirydd), Rob Parkes, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood, Shereen Devine, Catherine Jones, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees; Geraint Williams (hwyr),

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**52.** **Cyflwyniad amlinelliad potensial cydweithio.** Croesawodd y cadeirydd Lynne Wilson ac fe'i gwahoddodd i annerch y cyfarfod. Roedd yr artist Andrew Coomber, oedd yn gyfrifol am wneud Coron Eisteddfod 2013 yn Ninbych ac wedi ei wahodd i wneud Coron Eisteddfod yr Urdd 2016 yn y Fflint, eisiau cynnig i Ddinbych arddangosfa ar ei ffordd o ymdrin â chelf, gemwaith ac yr arbennig y Goron. Roedd y Carriageworks wedi ei logi am bum wythnos ym mis Mai 2016. Roedd yr angerdd yn y ffordd roedd Andrew Coomber yn siarad am Ddyffryn Clwyd ac yn arbennig Dinbych - ei ddull o weithio ar hyn drwy ddigwyddiadau / arddangosfeydd ac ati, yn rhywbeth y gallai ddigwydd yn Ninbych dros gyfnod o amser, gan ddefnyddio'r Amgueddfa, Theatr Twm o'r Nant a Hwb Dinbych. Roedd yn bosibl, drwy gynnig nifer o ddigwyddiadau dros gyfnod o amser y byddai'n cadw Dinbych mewn amlygrwydd. Roedd goblygiadau costau ac angen cael ffynhonnell ariannu. Roedd Lynn Wilson yn chwilio am syniadau a barn y cyngor tref. Mewn amser, mae'n debyg, bydd angen gweithgor bach.

Ymatebodd Lynn Wilson i sylwadau a chwestiynau'r aelodau ar: (1) Roedd gan y prosiect nifer o elfennau - amseru'r digwyddiad, (2) Cwestiwn costau, yr angen i gael rhestr siopa a'r posibilrwydd o gysylltu gyda Drysau'n Agored, (3) Sut fyddai'r digwyddiadau yn ffitio i mewn gyda menter gymdeithasol y Carriageworks, (4) Cynllunio a'r costau oedd yn ymglymedig, (5) Costau yn fater mawr.

Roedd yr holl aelodau oedd yn bresennol o'r farn y byddai'r prosiect yn dda i Ddinbych, yn arbennig y plant a phobl ifanc, ac roeddent yn gefnogol i'r prosiect.

Diolchodd y cadeirydd i Lynn Wilson am ei phresenoldeb a'i chyflwyniad a gofynnodd am iddi ddiweddaru'r cyngor o ddatblygiadau.

**53.** **Gideon International**. Cyflwynodd Tom a Doris Williams, ar ran Gymdeithas Gideon, gopi o'r Beibl i'r Maer, y Cynghorydd Raymond Bartley. Rhoddodd Mr Williams amlinelliad byr o waith y Gymdeithas. Dywedodd Mr Williams, am ei bod hi'n achlysur arbennig gyda 5ed cyfnod y Cyng Bartley yn y swydd ac i ddathlu'r achlysur, cyflwynodd gopi o'r Testament Newydd a'r Salmau i bob aelod o'r cyngor. Diolchodd y Maer i Mr Williams am y cyflwyniad personol a'r cyflwyniad i aelodau'r cyngor.

**54.** **Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**55.** **Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiad canlynol

(1) Cyng Raymond Bartley - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.

**56.** **Derbyniwyd a chymeradwywyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Fehefin 22ain 2015.**

**57.** **Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**58.** **Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd a nodwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Ymhelaethodd y Maer ar dri digwyddiad oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad, sef, (1) Cyngerdd Cydweithfa Cerddoriaeth Sir Ddinbych, (2) Cyfarfod Blynyddol Sgowtiaid Brynbach Dinbych a

(3) Cyngerdd Côr Meibion Dinbych.

**59.** **Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi tair eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

**60.** **Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r cais canlynol a dderbyniwyd am ganiatâd cynllunio:

Undeb Credyd Gogledd Cymru, Stryd y Bont

**61.** **Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.** (1) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Orffennaf 20fed 2015.
(2) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Orffennaf 20fed 2015.

**62.** **Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor:** Nid oedd unrhyw gofnodion / adroddiadau.

**63.** **Adroddiadau**: (1) Tân Gwyllt. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(2) Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. Dywedodd y Cyng Colin L Hughes fod siop yng Nghorwen yn darparu gwisgoedd dilys neu ddewis arall fyddai i brynu brethyn o dras y Rhyfel Byd Cyntaf ac i wneud gwisgoedd.

(3) Goleuadau Nadolig. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. Dywedodd clerc y dref fod dyfynbrisiau wedi eu derbyn oddi wrth Blachere ynglŷn â llogi arweddion newydd ar gyfer Stryd y Dyffryn, goleuadau newydd ar gyfer y llen oleuo ac i brofi'r gwifrau catenary. Ystyriwyd pob un o'r dyfynbrisiau. Cytunwyd i dderbyn pob un o'r dyfynbrisiau: (1) £2,289 & TAW i amnewid goleuadau diffygiol y llen olau, (2) £1,100 & TAW i brofi 44 o fannau cysylltu'r gwifrau catenary a (3) £6,126.05 & TAW i logi arweddion newydd ar gyfer Stryd y Dyffryn.

(4) CCTGC. Dywedodd y Cyng Bartley ei fod wedi methu a mynychu cyfarfod diweddar.

(5) CCTCGC - diweddariad ar y rali geir. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Cyng Colin L Hughes.

(6) Drysau'n Agored 2015 - Medi 19/20. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Medwyn Williams - ariannu ar gyfer digwyddiad y flwyddyn yma yn llai nac yn y gorffennol. Bu symud ymlaen a pharatoi'r taflenni. Un siomiant oedd bod Cadw yn dathlu Diwrnod Agored Ewropeaidd / Cenedlaethol yr wythnos wedyn gyda'r castell yn agored yn rhad ac am ddim.

(7) Sioe Dinbych. Dywedodd y Cyng Rob Parkes fod paratoadau ar gyfer sioe eleni yn mynd yn dda.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**64.** **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley: (1) Datblygiad briff Brwcws ar fin dod allan mewn drafft. Tri mis o ymgynghoriad yn dechrau ym mis Medi mewn dau leoliad - Melin Brwcws a Llyfrgell Dinbych. Llythyrau i'w darparu a'u rhannu yn yr ardal. (2) Safle Frondeg - codwyd nifer o bryderon ond ddim digon i wrthwynebu'r cais cynllunio - caniatawyd y cais - datblygwyr ar y safle o fewn dau fis. (3) Dolwen - pedwar cartref yn Sir Ddinbych yn wynebu toriadau. Bydd Dolwen yn parhau hel cartref EMI/EMH yn cael ei redeg gan gwmni preifat yn cadw'r staff presennol. Bydd estyn y cyfnod asesu yn destun cyfnod o ymgynghoriad dros

8 wythnos. Roedd y staff a'r undebau yn hapus. (4) Iard yr Orsaf - Homebase wedi derbyn caniatâd - y cais gan Aldi wedi oedi.
Ymatebodd y Cyng Bartley i gwestiynau gan yr aelodau, yn bennaf ynglŷn â Dolwen.

**65. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Ernest Martin - cloi ac agor giât gardd Dr E P Garden (Rhif siec 005681) | - | £60.00 |
| (2) | Paul Liversidge - clirio llwybrau (Mehefin) (Rhif siec. 005682) | - | £165.00 |
| (3) | Zen Internet - darpariaeth ADSL provision (Awst) (Rhif siec 005683) | - | £18.37 |
| (4) | Cyng Colin L Hughes - costau teithio (Conwy x 2) (Rhif siec 005684) | - | £50,50 |

Cyfanswm taliadau: £293.87.

2. Taliadau cyfrifon rhwng Gorffennaf 28ain a Medi 14eg 2015. Cytunwyd rhoddi caniatâd i glerc y dref dalu unrhyw gyfrifon a dderbynnir yn ystod y cyfnod yma ac i baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod Medi 14eg.

**66. CSDd -** Cymhwysydd storio a deunydd chwaraeon. Atgoffodd clerc y dref y cyfarfod fod y mater yma wedi ei ohirio o'r cyfarfod ar Ebrill 27ain, Mai 18fed a Mehefin 22ain. Cyfeiriwyd at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth GSDd yn awgrymu lleoliad yn ardal chwarae Parc Nant, Llys Gwydr. Derbyniwyd yr awgrym.

**67. Fferm Tan y Marian, Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ynglŷn â'r cynnig i waredu'r eiddo i'r tenant presennol. Derbyniwyd y cynnig.

**68. Lôn Brombil.** Cyfeiriodd clerc y dref at y gwahanol e-byst a dderbyniwyd oddi wrth GSDd mewn ymateb i bryderon y cyngor tref (Cofnod 44(3)). Dywedodd y Cyng Parkes fod hyn wedi bod yn broblem dros nifer o flynyddoedd. Nodwyd yr e-byst.

**69. Parcio ar balmentydd yn Ninbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-byst a dderbyniwyd oddi wrth yr Heddlu a CSDd mewn ymateb i bryderon y cyngor tref (Cofnod 39(2)(1)). Dywedodd y cadeirydd fod neb yn barod i gymryd y cyfrifoldeb. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod y sefyllfa wedi gwaethygu. Dywedwyd fod y sefyllfa wedi bod yn un barhaus dros nifer o flynyddoedd a hefyd yn digwydd mewn trefi eraill. Dywedodd y cadeirydd y byddai'n dod ar mater i fyny yng nghyfarfod nesaf MAGS.

**70. Cofrestr Diddordebau'r Aelodau.** Dywedodd clerc y dref ei fod wedi derbyn cyngor oddi wrth swyddog monitro CSDd nad oedd angen i'r aelodau lenwi'r ffurflen yn rhoddi manylion llawn a diddordebau ariannol a diddordebau eraill fel yn y gorffennol - roedd hyn ond yn berthnasol i'r prif awdurdodau. Er hynny roedd gofyniad i'r cyngor tref gyhoeddi ar lein rhestr o ddiddordebau. Dangoswyd y ffurflen y bwriedi'r i'w defnyddio ac fe'i derbyniwyd gan yr aelodau i'w defnyddio ar lein.

**71. Pabell Archif Gymunedol Dinbych yn Sioe Dinbych.** Dywedodd clerc y dref fod angen stiwardiaid i helpu a gofynnodd am wirfoddolwyr o fewn y cyngor. Gwirfoddolodd y Cyng Roy Tickle, Medwyn Williams, Gaynor Wood, Raymond Bartley a chlerc y dref eu gwasanaeth. Cytunwyd hefyd i gael "pop-up" ar gyfer yr archif gymunedol i'w defnyddio gan y grŵp. Dywedwyd hefyd fod dau "pop-up" y cyngor tref wedi eu difrodi yn ddiweddar yn y carnifal - cytunwyd i gael "pop-ups" newydd.

72. **Symposiwm TCE**. Dywedodd clerc y dref y cynhelir y symposiwm rhwng Medi 30ain a Hydref 3ydd yn Ravena yn yr Eidal, a'i fod wedi cael gwahoddiad i fynychu. Gofynnodd clerc y dref i'r cyngor ystyried symud dyddiad cyfarfod y Cyngor ar Fedi'r 28ain tan ddydd Llun Hydref 5ed neu i ddod a chyfarfod y pwyllgor Cynllunio a chyfarfod y pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a chyfarfod y Cyngor llawn ymlaen i ganol mis Medi mwyn ei alluogi i hedfan i'r Eidal ar Fedi'r 29ain. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i ddod a chyfarfod y pwyllgor cynllunio a chyfarfod y pwyllgor amgylchedd a chyllid ymlaen o Fedi'r 21ain i fedi'r 14eg ac i ddod a chyfarfod llawn y Cyngor ymlaen o Fedi'r 28ain i Fedi'r 21ain.** Mewn ateb i gwestiwn cadarnhaodd clerc y dref <u>nad oedd</u> yn gofyn am gymorth ariannol oddi wrth y cyngor tref i fynychu'r symposiwm. Mewn ateb i gwestiwn arall cadarnhaodd clerc y dref y byddai'n cario pleidlais y cyngor tref ynglŷn ag etholiad y llywydd, yr is lywydd a'r trysorydd. Awgrymwyd gan rhai o'r aelodau y dylai clerc y dref dderbyn rhywfaint o gymorth ariannol a **Phenderfynwyd** (yn unfrydol) **i roddi cyfraniad ariannol o £100 i glerc y dref i fynychu'r symposiwm.**

73. **Cyfarfod brys mis Awst.** Yn ôl arferiad arferol y cyngor cytunwyd fod y Maer, Dirprwy Faer, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid ynghyd a chlerc y dref yn cyfarfod pan fo angen yn ystod Awst i ymdrin ag unrhyw fusnes oedd angen sylw.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.10 o'r gloch.

Arwyddwyd:......................................................... (cadeirydd)

Dyddiad:.........................